**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-904
Ein cyf/Our ref LG/06865/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
~~Bae Caerdydd~~
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

24 Medi 2019

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Medi ynghylch Deiseb P-05-904: Gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn syrcasau a sioeau teithiol yng Nghymru.

Credaf ei bod yn bwysig rhoi cyd-destun i'r materion a godwyd a thrwy ddarparu gwybodaeth gefndir, rwy'n egluro'r sefyllfa bresennol ar gyfer gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau a sioeau teithiol a'r cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

**Gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru**

Gwnes gyflwyno'r Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) ar 8 Gorffennaf 2019. Pwrpas y Bil pwysig hwn yw gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru; arfer anegwyddorol sydd wedi hen ddyddio ac nid oes lle iddo mewn cymdeithas fodern. Prin y mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn ein helpu i ddeall anifeiliaid gwyllt a sut mae eu gwarchod.

Nid yw'r Bil yn effeithio ar ddefnyddio anifeiliaid domestig mewn syrcasau teithiol ac nid yw'n rhwystro pobl rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt fel adloniant mewn sefyllfaoedd eraill. Mae sail egwyddorol wahanol i'r gwrthwynebiadau o ran defnyddio anifeiliaid yn y lleoliadau hyn o gymharu â defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Mae gwahaniaethau o ran y math o rywogaethau a gedwir, y cyflwr y'u cedwir a sut y cânt eu defnyddio a'u harddangos.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Bil wedi cyrraedd Cyfnod 1 o'r broses graffu ac, os bydd yn llwyddiannus, disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2020.

**Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid**

Ym mis Rhagfyr 2017, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddais fy mwriad i gyflwyno cynllun ar gyfer trwyddedu Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid yng Nghymru sy'n bodloni meini prawf penodol. Gwnes achub ar y cyfle yn yr ymgynghoriad i ofyn am farn hefyd ynghylch gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Roedd y mwyafrif llethol o blaid gwaharddiad. Nid oes unrhyw syrcas yn defnyddio anifeiliaid gwyllt yng Nghymru, ond mae syrcasau yn ymweld, a phob tro y byddant yn gwneud hynny, mae galwadau o'r newydd i wahardd yr arfer. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus hwyrach ar Fil drafft wedi denu dros chwe mil a hanner o ymatebion gyda 97% o blaid cyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol.

Fodd bynnag, mae lles anifeiliaid eraill sy'n cael eu harddangos yn bwysig imi hefyd. Ers ymgynghoriad 2017 ar Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, rwyf wedi ehangu'r cwmpas i gynnwys 'pob' arddangosfa anifeiliaid, gan gynnwys rhai disymud yng Nghymru. Lansiais ymgynghoriad ar gynllun trwyddedu ar gyfer pob arddangosfa anifeiliaid sydd wedi'i lleoli yng Nghymru neu sy'n ymweld â Chymru i fynd i'r afael â phryderon ynghylch nad yw safonau lles yn cael eu hasesu'n rheolaidd yn yr arddangosfeydd hynny.

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos ar y Rheoliadau drafft a'r Cyfarwyddyd sy'n mynd gyda nhw ar 29 Awst a gellir ei weld yn https://llyw.cymru/arddangosfeydd-anifeiliaid?_ga=2.149401846.179615040.1568802448-285421535.1558350358

Er nad wyf yn gallu rhagweld canlyniad yr ymgynghoriad, y nod yw y bydd y Rheoliadau yn chwarae rol allweddol o ran sicrhau bod safonau lles anifeiliaid sy'n cael eu harddangos, gan gynnwys rhywogaethau domestig sy'n cael eu defnyddio mewn syrcasau teithiol o hyd, yn ddarostyngedig i rheoliadau. Bydd hynny'n ffordd o gynnal a chadw safonau cadarn a sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu harddangos mewn ffordd sy'n annog pawb i barchu pob rhywogaeth a'i thrin yn gyfrifol. Y nod yw y bydd hynny'n sicrhau bod y cynllun yn cael effaith hirhoedlog ar les anifeiliaid sy'n cael eu harddangos ac ar agweddau cenedlaethau o berchenogion anifeiliaid yn y dyfodol yng Nghymru.

Gall y Pwyllgor Deisebau fod yn sicr y bydd datblygu cynllun trwyddedu yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau'r safonau lles uchaf ar gyfer yr holl anifeiliaid sy'n cael eu cadw a'u harddangos yng Nghymru. Bydd yn dangos yn glir i ymwelwyr a dinasyddion Cymru ein bod yn genedl sy'n caru anifeiliaid a'n bod yn ystyried lles pob anifail a arddangosir o ddifrif.

Rwy'n annog pawb i ddarllen yr ymgynghoriad ac i ymateb iddo i sicrhau bod sylwadau yn cael eu hystyried yn ystod y trafodaethau terfynol.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs